Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Caerdydd
CF99 1NA

26 Medi 2019

Annwyl Gadeirydd,

**Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21**

Ysgrifennaf atoch ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru mewn ymateb i'ch ymgynghoriad ynglŷn â Chynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21. Fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru a phartner allweddol yn y dirwedd gwasanaethau cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldebau a buddiannau penodol o ran y dirwedd gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru. O'n safbwynt cenedlaethol, mae gennym gysylltiadau cryf â'r sector ac rydym yn gweld yn uniongyrchol yr heriau y mae gofynion cyfredol a gofynion y dyfodol yn eu creu, sy'n ein cymell i ymateb.

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant yn cael cychwyn da mewn bywyd a bod plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu gwarchod rhag niwed ac yn cael cefnogaeth i gynnal a gwella eu llesiant.

**Cymru Iachach**

Byddwn yn parhau i gyfrannu at y gwaith o fwrw ymlaen â *Cymru Iachach: ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol* [1], ac rydym yn cefnogi'n llawn galwad Llywodraeth Cymru i sefydlu "sector gofal cymdeithasol cynaliadwy, sy'n darparu cyfleoedd pwysig o ran cyflogaeth a gyrfaoedd fel rhan o'r economi sylfaenol

[1] Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (2018)

mewn nifer o gymunedau". Dylai system iechyd a gofal cymdeithasol ddi-dor wedi'i darparu yn lleol helpu i sicrhau cydraddoldeb rhwng gweithwyr cyflogedig iechyd a gofal cymdeithasol, gwella amodau a thelerau a chodi proffil y sector gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ellir cyflawni hyn heb fuddsoddi mewn aelodau staff, gwelliannau o ran recriwtio a chadw staff a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r gwaith o gyflwyno'r ymgyrch *Gofalwn Cymru* yn un enghraifft o'n hymrwymiad i hyn, fel y mae datblygu Cyd-strategaeth ar gyfer y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae awdurdodau lleol yn wynebu eu heriau mwyaf mewn perthynas â chostau'r gweithlu, gan gynnwys y rhai yn y maes gofal cymdeithasol. Caiff hyn ei ailadrodd ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol annibynnol a'r trydydd sector, gan fod y rhan fwyaf o wasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol ac felly maent wedi cael eu heffeithio gan y cyni a'r arbedion yn yr un ffordd. Er ein bod yn cydnabod bod gwariant ar ofal cymdeithasol yng Nghymru wedi ei ddiogelu i ryw raddau yn ystod y blynyddoedd o gyni, gwelwyd gostyngiad o 14% y pen ar wasanaethau ar gyfer pobl 65 oed a hŷn a symudiadau at gefnogi pobl sydd ag anghenion llawer mwy[2]. Mae'n ymddangos bod hyn yn mynd yn groes i'r polisi a'r bwriad deddfwriaethol i gefnogi gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal gan fod llawer o wasanaethau o'r fath wedi wynebu toriadau wrth geisio rheoli'r cyllidebau ers 2008. Er mwyn sicrhau'r agenda drawsnewidiol a geir mewn polisïau a deddfwriaethau yng Nghymru, byddem yn awgrymu bod angen buddsoddi mewn gofal cymdeithasol, yn enwedig felly yn y gweithlu gofal cymdeithasol yn awr ac yn y dyfodol. Mae modelau gwasanaeth gwahanol yn cael eu treialu ar hyn o bryd drwy brosiectau'r Gronfa Trawsnewid mewn Partneriaethau Rhanbarthol, ac mae hyn i'w groesawu, ond mae yna bryderon am gynnal y newidiadau heb refeniw cynaliadwy, yng nghyd-destun gofynion cynyddol.

**Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**

Rydym yn parhau i gefnogi'r canfyddiadau a gasglwyd gan ADSS Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i'w cyflwyno[3] i Ymchwiliad Pwyllgor

---

[2] Talu am Ofal Cymdeithasol: Adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (Mehefin 2018)
[3] Tystiolaeth CLlLC ac ADSS Cymru i'r Pwyllgor Cyllid ar yr Ymchwiliad i Gost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio (Ionawr 2018)

Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gost Gofalu am Boblogaeth sy'n Henediddio ym mis Hydref[4]. Roedd yr adroddiad hwn yn gyfraniad pwysig o ran sicrhau cyllid yn y dyfodol ar gyfer y sector ac felly'r gallu i ymdrin â'r heriau'n ymwneud â chostau'r gweithlu. Wrth symud ymlaen â'r agenda hon, rydym yn parhau i gydweithio ag ADSS Cymru a Grŵp Rhyngweinidogol Llywodraeth Cymru ar Dalu am Ofal Cymdeithasol.

Er mwyn datblygu a chyllido sector gofal cymdeithasol cynaliadwy a gwydn bydd angen atebion newydd ac arloesol, a gall cynigion a modelau newydd ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol fod yn ffordd o gryfhau a sefydlogi'r sector yn y blynyddoedd i ddod. Byddai hyn yn gwneud integreiddio a gwasanaethau di-dor yn fwy tebygol. Bydd y dyheadau hyn yn golygu bod angen buddsoddi mewn datblygu a gwella'r gweithlu er mwyn cefnogi'r newid mewn diwylliant sydd ei angen er mwyn cyflawni'r uchelgais hon. Un elfen bwysig fydd sefydlu dull o ariannu gofal sy'n sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru'n teimlo bod gwasanaethau'n deg, o ran cyfraniad neu ansawdd y gwasanaeth a gafwyd, a hoffem weld y buddsoddiad hwn yn cael ei adlewyrchu'n well yn natganiad y setliad. Gall y cynigion o ran yr ardoll Gofal Cymdeithasol, a'r pwerau codi trethi roi opsiynau yn hyn o beth ac rydym yn parhau i gyfrannu at y trafodaethau hynny.

***Cymru Decach a Ffyniant i Bawb***

Mae hyrwyddo egwyddorion gwaith teg a disgwyliadau i gael cyflog byw yn fanteisiol i unigolion, cyflogwyr a'r economi yn ehangach, ac rydym yn cefnogi'r cam hwn. Mae gan y sector gofal cymdeithasol rôl gref wrth gefnogi a datblygu gwlad o waith teg. Fel rydym wedi amlinellu mewn cyhoeddiad blaenorol[5], mae gofal cymdeithasol i oedolion yn cyfrannu £1.2 biliwn yn uniongyrchol i economi Cymru ac mae'n gwneud cyfraniad ehangach o £2.2 biliwn. Mae'r sector gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd yn cyflogi tua 90,520 o bobl ac mae 23,300 arall yn cynnig gwasanaethau yn y blynyddoedd cynnar, y Cyfnod Sylfaen a gwaith chwarae. Mae hyn yn llawer uwch na'r niferoedd sy'n cael eu cyflogi gan y GIG yng Nghymru, ac yn gost sylweddol is i'r pwrs cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod buddsoddi yn y sector gofal

---

[4] Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio' (Hydref 2018)
[5] Gwerth Economaidd y Sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Cymru (Mehefin 2018)

cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn rhan annatod o'r angen i leihau'r galw sydd ar wasanaethau drytach y GIG, er mwyn cynyddu ein gallu i warchod y defnydd o ofal clinigol acíwt.

Fe wnaeth gwaith ymchwil yn 2016 gan Sefydliad Bevan ddod i'r casgliad bod cyflog mwy na chwarter yr holl weithwyr cyflogedig yng Nghymru yn llai na'r Cyflog Byw (Real)[6]. Yn ôl papur yr Athro Gerald Holtham *Talu am Ofal Cymdeithasol* "nid yw gweithwyr gofal yn cael cyflog da ar y cyfan"[7]. Mae hyn yng nghyd-destun y polisi a gytunwyd i broffesiynoli'r sector drwy reoleiddio'r gweithlu, gan gynyddu sgiliau a chymwysterau wrth wneud hynny, drwy ein swyddogaethau rheoleiddio a gwella. Er mwyn cyflawni'r disgwyliadau hyn, byddem yn awgrymu bod angen mynd i'r afael â chyflog ac amodau a thelerau'r aelodau staff hyn, a bydd angen sicrhau mwy o gydraddoldeb gyda'r sector iechyd. Dyma oedd un o'r ymatebion mwyaf pendant a gafwyd i'n hymgynghoriad ar Gyd-strategaeth y Gweithlu, a fydd yn cael ei chyhoeddi'n gynnar yn 2020.

At hynny, ac fel yr amlygwyd yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, *A yw Cymru'n Decach? 2018*, mae yna achosion cyfreithiol parhaus mewn perthynas â gorfodi'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer sifftiau 'cysgu i mewn', a allai effeithio ar ddarparwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae'r materion hyn yn parhau i gael effaith ar gyllid cyflogwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru a dylid cydnabod hynny wrth osod ffioedd a chostau'r gweithlu yng nghyllidebau'r llywodraeth.

Mae prif negeseuon adroddiad mis Ionawr 2016, *Effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol ar y sector gofal yng Nghymru*[8] yn parhau'n berthnasol heddiw: er bod yr egwyddor bod staff gofal yn cael eu talu'n briodol am eu hymdrechion yn cael ei chefnogi gan bawb dan sylw ac y gallai helpu i ryw raddau gyda'r her sylweddol o recriwtio a chadw staff gofal, mae cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol, gofynion pensiwn y gweithle, ynghyd â chynnydd pellach yn arwain at isafswm cyflog statudol o £9 yr awr ym mis Ebrill 2020, yn achosi problemau difrifol i ddarparwyr a chomisiynwyr

---

[6] 'What will it take to pay the Living Wage in Wales?' (Mai 2016) Sefydliad Bevan
[7] Talu am Ofal Cymdeithasol: Adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (Mehefin 2018)
[8] Effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol ar y sector gofal yng Nghymru (Ionawr 2016)

gofal ledled Cymru. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y papur *Talu am Ofal Cymdeithasol* a gyhoeddwyd y llynedd ac a ddaeth i'r casgliad y bydd cyflwyno'r Cyflog Byw yn codi costau'n sylweddol. Mae'r £10 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017 [9], a gynyddwyd i £19 miliwn ym mis Mai 2017, wedi'i groesawu ac mae wedi helpu awdurdodau lleol i reoli'r effaith hon i ryw raddau. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau yng nghyd-destun setliadau ariannol heriol llywodraeth leol a gostyngiad o 12% a mwy mewn termau real mewn cyllidebau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol[10]; yr her o recriwtio a chadw gweithwyr, a'r gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau sydd eu hangen yn ein cymunedau yng nghyd-destun galw cynyddol am ofal cymdeithasol.

**Atebion Posibl**

Un elfen allweddol yw canfod ffordd o gyllido'n fwy teg ac yn fwy cynaliadwy system iechyd a gofal cymdeithasol ddi-dor ac integredig sy'n cyflawni addewidion *Cymru Iachach*. Mae dod o hyd i ffyrdd mwy arloesol o sicrhau canlyniadau personol drwy atal ac ymyrraeth gynnar yn ffactor pwysig yn ogystal ag ailsefydlu gwasanaethau a chymorth cymunedol sydd yn aml iawn wedi dioddef yn sgil y cyni.

Mae'n rhaid creu gweithlu digonol a medrus o ansawdd uchel yng nghyd-destun arferion cyflogaeth teg, gan gynnwys cyflog, i gymell gweithwyr. Gall sicrhau bod arferion o'r fath yn rhan annatod o'r sector gofal, ac yn cael eu hystyried felly, helpu i ddatblygu gweithlu amrywiol, brwdfrydig, cynhyrchiol a chynaliadwy, yn enwedig os yw'r cyflog yn deg. Fel yr amlygir yn adroddiad 2016 Llywodraeth Cymru ar weithwyr gofal cartref[11], mae sicrhau bod gweithwyr yn derbyn cyflog teg, yn cael eu hyfforddi'n dda a bod ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith yn fuddiol i bawb. Mae effeithiau cadarnhaol cael gweithlu sefydlog a mwy cynhyrchiol sy'n elwa ar agwedd gwaith teg yn niferus ac yn bellgyrhaeddol. Fel yr amlygwyd yn adroddiad Mehefin 2018 *Gwerth Economaidd y Sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Cymru*[12], gall sector gofal cymdeithasol i oedolion o ansawdd uchel helpu i gefnogi

---

[9] Llywodraeth Cymru '£10 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol' (Ionawr 2017)
[10] A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018 Comisiwn cydraddoldeb a hawliau dynol
[11] Y ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref a'r graddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref (Mawrth 2016)
[12] Gwerth Economaidd y Sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Cymru (Mehefin 2018)

unigolion sy’n derbyn gofal a helpu gofalwyr di-dâl i barhau i weithio neu ymuno neu ailymuno â’r gweithlu. Ni ellir cyflawni hyn oll heb gyllido’r system gofal cymdeithasol yn ddigonol. Rydym yn credu’n gryf y bydd buddsoddi yng ngweithlu’r sector yn awr yn cefnogi amcanion deddfwriaeth gofal cymdeithasol ddiweddar yng Nghymru a’r cynnig am wasanaethau di-dor ac integredig.

Mae llawer o’r rhethreg a’r gwaith ymchwil ynglŷn â chostau cynyddol gofal cymdeithasol yn ymwneud â chymdeithas sy’n heneiddio ac sy’n byw gydag anghenion iechyd, gofal a chymorth mwy cymhleth. Mae nifer y plant sy’n derbyn gofal yn cynyddu, gyda 6,407 o blant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2018, cynnydd o 464 (8 y cant) ers y flwyddyn flaenorol (a 36% ers 2009) a chyfradd o 102 fesul 10,000 o’r boblogaeth dan 18 oed[13]. Ar hyd a lled Cymru, mae’r gwasanaethau hyn yn cynyddu’r pwysau ariannol ar awdurdodau lleol. Yn ôl *Cut to the Bone; Local Government Finances in Wales* gan Wales Fiscal Analysis, mae’r gwariant ar ofal cymdeithasol plant wedi cynyddu £96 miliwn (33%) ers 2009-10. Heb fwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol, mae’n anodd gweld sut gellir lleihau’r costau hyn.

Rydym am gefnogi’r alwad gan awdurdodau lleol i barhau i fuddsoddi yn eu gwasanaethau, fel bod modd datblygu rhagor ar gymorth ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae’n hanfodol hefyd bod cyllid newydd i fodloni gofynion gwasanaethau gofal cymdeithasol, sy’n cyd-fynd â newidiadau yn y boblogaeth, yn cael ei sicrhau er mwyn cefnogi pobl agored i niwed yng Nghymru. Mae gwasanaethau’r blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol lleol yn darparu cyflogaeth ystyrlon ym mhob rhan o Gymru ac maen nhw’n cyfrannu’n uniongyrchol at yr economi ehangach, sy’n llai tebygol o gael ei heffeithio gan bwysau economaidd byd-eang sydd i’w weld mewn llefydd eraill. Mae buddsoddi yn y gweithlu hwn yn fuddsoddiad doeth.

[13] ibid

Yn gywir,

Sue Evans
Prif Weithredwr